OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 667 (Cy.59)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod)(Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*12 Mawrth 2009*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 216(1) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) (Diwygio) 2009 a daw i rym ar 6 Ebrill 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2007

2.—(1) Mae Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2007(**3**) yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn.

3. Yn yr Atodlen hon—

(a) hepgorer—

(i) "Henley Management College"; a

(ii) "University of Paisley".

(b) yn lle—

(i) "Buckinghamshire Chilterns University College", rhodder "Buckinghamshire New University";

(ii) "University of Central England in Birmingham", rhodder "Birmingham City University";

(**1**) 1988 p.40.
(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672) a pharagraff 30(1) a (2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**3**) O.S. 2007/2795 (Cy.235).